



**Tystysgrif Mynediad mewn Cymraeg Ail Iaith:
Defnyddio'r Gymraeg**

**DARLLEN A LLENWI BYLCHAU
READING AND GAP-FILLING**

Arholiad 1 Chwefror 2019
1 February 2019 Examination

Rhif y Cwestiwn	Arholwr yn unig
1	
2	
3	
Cyfanswm:	

Hyd y prawf: 30 munud
Duration of test: 30 minutes

Mae'n bosibl ennill hyd at 60 marc yn y prawf hwn.
Up to 60 marks may be awarded in this test.

Enw a rhif y ganolfan:
Name and number of centre: _____

Enw'r ymgeisydd:
Candidate's name: _____

Rhif arholiad yr ymgeisydd:
Candidate's examination number: _____

Lle bydd angen geiriau, atebwch y cwestiynau yn Gymraeg.
Where words are required, answer the questions in Welsh.

Mae 3 chwestiwn yn y prawf hwn. Atebwch y tri ar y papur hwn.
There are 3 questions in this test. Answer all three on this paper.

1. **Hysbysebion (Fersiwn y De)**
Advertisements (South Wales Version)

[20]

Darllenwch yr hysbysebion yma. Yna, atebwch y cwestiynau sy'n dilyn ar sail yr wybodaeth yn yr hysbysebion. Does dim rhaid defnyddio brawddegau.
Read these advertisements. Then, answer the questions which follow on the basis of the information in the advertisements. You do not need to use sentences.

Siop Gwalia

Wedi symud o Stryd Fawr Llanaber
i Stryd yr Eglwys.

Popeth dych chi eisiau i'r tŷ
ar gael yn eich tre chi.

Siop ar agor rhwng 9am a 5pm.

Paned o goffi am ddim
gyda chopi o'r hysbyseb yma.

Sêl un diwrnod ar 5 Gorffennaf.

Mae'r staff i gyd yn
siarad Cymraeg.

Siop Siôn

Stryd Fawr Llanaber
Ar agor bob dydd
dydd Llun – dydd Sadwrn
o 7am i 9pm.
(10am i 4pm dydd Sul)

Papurau newydd, cardiau,
tocynnau loteri a mwy.

Cardiau pen-blwydd:
£2 yr un, neu 3 am £5.

Yn eisiau:
Rhywun i weithio yn y siop
ar y penwythnos.
Os oes diddordeb, ffoniwch Siôn
ar 01447 123123.

Siop Sainsco

Ar agor o 7am tan yn hwyr.

Bwyd ffres, llaeth ffres!
Yn Llanaber, dim ond ein siop
ni sy'n gwerthu bwyd organig.

Bargen yr wythnos:
Pizza ffres
2 am £6.

Mae digon o le parcio yn y cefn.
Croeso i gwsmeriaid hen a newydd.

1. **Cwestiynau (Fersiwn y De)**
Questions (South Wales Version)

[20]

1. Ble yn Llanaber mae Siop Gwalia **nawr**? _____
2. Faint o'r gloch mae Siop Gwalia'n cau? _____
3. Sut mae'n bosib cael coffi am ddim yn Siop Gwalia? _____
4. Sut mae Siop Gwalia'n help i ddysgwyr? _____
5. Faint o'r gloch mae Siop Siôn yn agor ar ddydd Sul? _____
6. Faint yw cost **un** cerdyn pen-blwydd yn Siop Siôn? _____
7. Pryd mae angen help yn y siop? _____
8. Beth dych chi'n gallu'i brynu yn Sainsco, ond **ddim** yn siopau eraill Llanaber? _____
9. Faint yw cost dau pizza yn Sainsco ar hyn o bryd? _____
10. Ble mae'r maes parcio, os dych chi'n mynd i Sainsco? _____

1. **Hysbysebion (Fersiwn y Gogledd)**
Advertisements (North Wales Version)

[20]

Darllenwch yr hysbysebion yma. Yna, atebwch y cwestiynau sy'n dilyn ar sail yr wybodaeth yn yr hysbysebion. Does dim rhaid defnyddio brawddegau.
Read these advertisements. Then, answer the questions which follow on the basis of the information in the advertisements. You do not need to use sentences.

Siop Gwalia

Wedi symud o Stryd Fawr Llanaber
i Stryd yr Eglwys.

Popeth dach chi isio i'r tŷ
ar gael yn eich tre chi.

Siop ar agor rhwng 9am a 5pm.

Paned o goffi am ddim
efo copi o'r hysbyseb yma.

Sêl un diwrnod ar 5 Gorffennaf.

Mae'r staff i gyd yn
siarad Cymraeg.

Siop Siôn

Stryd Fawr Llanaber
Ar agor bob dydd
dydd Llun – dydd Sadwrn
o 7am i 9pm.
(10am i 4pm dydd Sul)

Papurau newydd, cardiau,
tocynnau loteri a mwy.

Cardiau pen-blwydd:
£2 yr un, neu 3 am £5.

Yn eisiau:
Rhywun i weithio yn y siop
ar y penwythnos.
Os oes diddordeb, ffoniwch Siôn
ar 01447 123123.

Siop Sainsco

Ar agor o 7am tan yn hwyr.

Bwyd ffres, llefrith ffres!
Yn Llanaber, dim ond ein siop
ni sy'n gwerthu bwyd organig.

Bargen yr wythnos:
Pizza ffres
2 am £6.

Mae 'na ddigon o le parcio yn y cefn.
Croeso i gwsmeriaid hen a newydd.

1. **Cwestiynau (Fersiwn y Gogledd)** [20]
Questions (North Wales Version)

1. Lle yn Llanaber mae Siop Gwalia **rŵan**? _____
2. Faint o'r gloch mae Siop Gwalia'n cau? _____
3. Sut mae'n bosib cael coffi am ddim yn Siop Gwalia? _____
4. Sut mae Siop Gwalia'n help i ddysgwyr? _____
5. Faint o'r gloch mae Siop Siôn yn agor ar ddydd Sul? _____
6. Faint ydy cost **un** cerdyn pen-blwydd yn Siop Siôn? _____
7. Pryd mae angen help yn y siop? _____
8. Be' dach chi'n medru'i brynu yn Sainsco, ond **ddim** yn siopau eraill Llanaber? _____
9. Faint ydy cost dau pizza yn Sainsco ar hyn o bryd? _____
10. Lle mae'r maes parcio, os dach chi'n mynd i Sainsco? _____

2. **Deialog (Fersiwn y De)**
Dialogue (South Wales Version)

[20]

Darllenwch y ddeialog, ac yna llenwch y gridiau ar sail yr wybodaeth a roddir.
Dewiswch naill ai fersiwn y De neu fersiwn y Gogledd (tud. 8-9).

Read the dialogue, then complete the grids based on the information given. Choose either the South Wales or North Wales version (pages 8-9).

Mae dau hen ffrind, Tomos a Steffan, yn cwrdd yn y ganolfan hamdden.

- Tomos: Sut wyt ti?
Steffan: Dw i'n iawn, diolch i ti. Beth wyt ti'n ei wneud yma?
Tomos: Dw i'n dod yma i'r Ganolfan Hamdden bob nos Iau i chwarae badminton. Wyt ti'n mynd i'r pwll?
Steffan: Fi? Bobl bach, nac ydw. Dw i ddim yn hoffi nofio na chwaraeon a dweud y gwir. Dw i'n cerdded i'r gwaith bob dydd, felly mae hynny'n help i gadw'n heini.
Tomos: Faint o amser mae'n ei gymryd i ti gerdded i'r coleg?
Steffan: Tua hanner awr.
Tomos: Mae hynny'n iawn. Rhaid i fi fynd â'r car i'r gwaith bob dydd, ac mae parcio yn yr ysbyty'n broblem fawr. Ond mae e'n lle da i weithio ac mae llawer o ffrindiau gyda fi yno.
Steffan: Rwyd ti'n lwcus.
Tomos: Ydw. Es i gyda nhw i glwb y staff neithiwr, a dweud y gwir. Roedd hi'n noson dda iawn...
Steffan: Es i ma's neithiwr hefyd, fel mae'n digwydd. Roedd fy nghariad yn cael ei phen-blwydd, ac aethon ni am bryd o fwyd yn y tŷ bwyta Eidalaid ar gornel y stryd fawr.
Tomos: Dw i'n gwybod am y lle. Gaethoch chi noson dda?
Steffan: Do, diolch. Digon o win coch! Hei, dw i'n mynd i'r caffi yma i gael coffi... wyt ti eisiau dod?
Tomos: Dim diolch. Dw i'n mynd i brynu dŵr cyn mynd i'r cwrt badminton. Mae'r gêm yn dechrau mewn pum munud.
Steffan: Popeth yn iawn. Gwela i di eto.
Tomos: Hwyl.

Gridiau ar gyfer Fersiwn y De

Grids for South Wales Version

Does dim rhaid i chi ysgrifennu brawddegau, ond rhaid llenwi'r ddau grid ar y dudalen hon.

You do not need to write sentences, but you must fill in both grids on this page.

Pwy?	Sut maen nhw'n cadw'n heini?	Ble maen nhw'n gweithio?	Ble aethon nhw neithiwr?
Tomos	1.	2.	3.
Steffan	4.	5.	6.

Pwy?	Gyda phwy aethon nhw yno?	Beth maen nhw'n mynd i'w yfed yn y Ganolfan Hamdden?
Tomos	7.	8.
Steffan	9.	10.

2. **Deialog (Fersiwn y Gogledd)**
Dialogue (North Wales Version)

[20]

Darllenwch y ddeialog, ac yna llenwch y gridiau ar sail yr wybodaeth a roddir.
Dewiswch naill ai fersiwn y De (tud. 6-7) neu fersiwn y Gogledd.

Read the dialogue, then complete the grids based on the information given. Choose either the South Wales (pages 6-7) or North Wales version.

Mae dau hen ffrind, Tomos a Steffan, yn cyfarfod yn y ganolfan hamdden.

- Tomos: Sut wyt ti?
Steffan: Dw i'n iawn, diolch i ti. Be' wyt ti'n wneud yma?
Tomos: Dw i'n dŵad yma i'r Ganolfan Hamdden bob nos Iau i chwarae badminton. Wyt ti'n mynd i'r pwll?
Steffan: Fi? Bobl bach, nac ydw. Dw i ddim yn hoffi nofio na chwaraeon a deud y gwir. Dw i'n cerdded i'r gwaith bob dydd, felly mae hynny'n help i gadw'n heini.
Tomos: Faint o amser mae'n ei gymryd i ti gerdded i'r coleg?
Steffan: Tua hanner awr.
Tomos: Mae hynny'n iawn. Rhaid i mi fynd â'r car i'r gwaith bob dydd, ac mae parcio yn yr ysbyty'n broblem fawr. Ond mae o'n lle da i weithio ac mae gen i lawer o ffrindiau yno.
Steffan: Rwyd ti'n lwcus.
Tomos: Ydw. Mi wnes i fynd efo nhw i glwb y staff neithiwr, a deud y gwir. Roedd hi'n noson dda iawn...
Steffan: Mi wnes i fynd allan neithiwr hefyd, fel mae'n digwydd. Roedd fy nghariad yn cael ei phen-blwydd, ac mi wnaethon ni fynd am bryd o fwyd yn y tŷ bwyta Eidalaid ar gornel y stryd fawr.
Tomos: Dw i'n gwybod am y lle. Wnaethoch chi gael noson dda?
Steffan: Do, diolch. Digon o win coch! Hei, dw i'n mynd i'r caffi yma i gael coffi... wyt ti isio dŵad?
Tomos: Dim diolch. Dw i'n mynd i brynu dŵr cyn mynd i'r cwrt badminton. Mae'r gêm yn dechrau mewn pum munud.
Steffan: Popeth yn iawn. Mi wela i di eto.
Tomos: Hwyl.

Gridiau ar gyfer Fersiwn y Gogledd

Grids for North Wales Version

Does dim rhaid i chi ysgrifennu brawddegau, ond rhaid llenwi'r ddau grid ar y dudalen hon.

You do not need to write sentences, but you must fill in both grids on this page.

Pwy?	Sut maen nhw'n cadw'n heini?	Lle maen nhw'n gweithio?	Lle wnaethon nhw fynd neithiwr?
Tomos	1.	2.	3.
Steffan	4.	5.	6.

Pwy?	Efo pwy wnaethon nhw fynd yno?	Be' maen nhw'n mynd i'w yfed yn y Ganolfan Hamdden?
Tomos	7.	8.
Steffan	9.	10.

trosodd / over

3. **Llenwi bylchau**
Gap-filling

[20]

Llenwch y bylchau yn y brawddegau yma, gan ddefnyddio'r sbardun mewn cromfachau neu'r llun, fel y bo'n briodol:

Fill the gaps in these sentences, using the prompts in brackets or the pictures, as appropriate:

1. Mae Tom yn byw yn _____ . **Tan-y-groes**
2. Dw i'n mynd adre _____ bump o'r gloch heno.
3. _____ hi ddim yn bwrw glaw nawr/rŵan.
4. Mae Gwyn yn edrych ar y _____ .

5. Rhaid _____ ti weld y ddrama!
6. Wyt ti'n gweithio yn y banc? _____ (✓)
7. _____ (gwneud) ti swper i'r teulu neithiwr?
8. Diolch yn _____ i chi am eich help.
9. Bore da, blant. _____ (eistedd) yn dawel am funud!
10. _____ mae Sam yn mynd heno? I'r dafarn!